# Bwrdd taliadau a pholisïau

20 Mai 2013

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 24 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

*Hoffwn gael gwybodaeth am y pwyllgor taliadau, faint ohonynt sy'n gyfrifol am blant ifanc tra'n cyflawni eu dyletswyddau. Hoffwn gael gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am gost teithio, wedi'i dadansoddi yn ôl math o deithio e.e. awyren, tacsi, trên, car ar gyfer pob aelod o'r bwrdd taliadau am hyd y Cynulliad hwn.*

*Ar gyfer pob un o weithwyr Comisiwn y Cynulliad. Unrhyw drefniadau a wneir gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer staff y Comisiwn i gael cymorth gyda chyfrifoldebau gofalu, e.e. gweithio hyblyg, y cynllun talebau ar gyfer gofal plant ac unrhyw gamau eraill a gymerwyd gan y Comisiwn i helpu'r rhai â phlant sy'n gweithio i'r Comisiwn. Hefyd, hoffwn gael datgeliad o unrhyw absenoldeb tosturiol a roddwyd i'r rhai sy'n gweithio i'r Comisiwn sydd wedi cael absenoldeb oherwydd bod aelod o'u teulu yn marw neu'n sâl iawn. Nifer y staff a delir tra'u bod ar absenoldeb tosturiol.*

*Hoffwn gael datgeliad o nifer yr Aelodau Cynulliad sy'n cyflogi aelodau o'u teulu, a bandiau cyflog y staff cymorth hynny.*

Rydym wedi rhannu eich cais i'r rhannau canlynol a byddaf yn ateb pob cwestiwn yn unigol.

**Y Bwrdd Taliadau**

*1. Faint sy'n gyfrifol am blant ifanc tra eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau?*

Nid oes gennym y wybodaeth hon.

2. *Gwybodaeth am gostau teithio, wedi'u ddadansoddi yn ôl math o deithio e.e. awyren, tacsi, trên, car ar gyfer pob aelod o'r bwrdd taliadau am hyd y Cynulliad hwn.*

Caiff gwybodaeth yn ymwneud â chostau'r Bwrdd Taliadau ar gyfer 2010-11 a 2011-12 ei chyhoeddi yn yr adroddiadau blynyddol canlynol:

2010-11 http://www.cynulliadcymru.org/gen-ld8710-c.pdf
2011-12 http://www.cynulliadcymru.org/gen-ld8989-c.pdf

Ni chafodd dadansoddiad cost ei gyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2010-11, ond mae Cais am Wybodaeth a ryddhawyd ar 22 Chwefror 2012 yn darparu'r wybodaeth y gwnaethoch gais amdani:
Cais - http://www.cynulliadcymru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/disclosure-log-month-view.htm?act=dis&id=243287&ds=2/2012

Atodlen lawn o'r costau - http://www.cynulliadcymru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/disclosure-log-month-view.htm?act=dis&id=243294&ds=2/2012

Bydd adroddiad blynyddol 2012-13, a fydd yn cynnwys dadansoddiad o gostau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2013.

Oherwydd y bydd y wybodaeth rydych yn gofyn amdani yn cael ei chyhoeddi, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth ar hyn o bryd, gan y bydd modd i chi weld y wybodaeth, yn llawn, pan gaiff ei chyhoeddi. Mae'r rhesymau dros beidio â darparu'r wybodaeth ar hyn o bryd wedi eu hesbonio yn Adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Atodiad A.

**Gweithwyr Comisiwn y Cynulliad**

3. *Unrhyw drefniadau a wneir gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer staff y Comisiwn i gael cymorth gyda chyfrifoldebau gofalu, e.e. gweithio hyblyg, y cynllun talebau ar gyfer gofal plant ac unrhyw gamau eraill a gymerwyd gan y Comisiwn i helpu'r rhai â phlant sy'n gweithio i'r Comisiwn.*

Isod, mae nifer o bolisïau adnoddau dynol a all fod o ddiddordeb i chi.  Caiff y rhain eu cyhoeddi ar safle mewnrwyd yr adran adnoddau dynol.  Nid ydynt ar gael yn Gymraeg.

Mae'r polisi gweithio hyblyg ar gael yma:

annual flexi arrangements - effec

Mae'r polisi aberthu cyflog gofal plant ar gael yma:

childcare policy.doc

Mae'r polisi gofalwyr ar gael yma:

carers.doc

Mae'r polisi absenoldeb rhiant ar gael yma:

parental right to work flexibly policy 1

4. *Hefyd, hoffwn ddatgeliad o unrhyw absenoldeb tosturiol a roddwyd i'r rhai sy'n gweithio i'r Comisiwn sydd wedi cael absenoldeb oherwydd bod aelod o'u teulu yn marw neu'n sâl iawn.  Nifer y staff a delir tra'u bod ar absenoldeb tosturiol.*

Nifer y staff a gafodd eu talu am absenoldeb arbennig am resymau domestig rhwng 5 Mai 2011 a 24 Ebrill 2013 yw 48.

Nodwch fod "rhesymau domestig" yn y polisi absenoldeb arbennig yn cwmpasu nifer o amgylchiadau ac nid yw'n cwmpasu salwch aelod o'r teulu neu berson dibynnol yn unig.

Mae'r polisi absenoldeb arbennig ar gael yma:

special leave policy 2012.doc

5. *Hoffwn gael datgeliad o nifer yr Aelodau Cynulliad sy'n cyflogi aelodau o'u teulu, a bandiau cyflog y staff cymorth hynny.*

Mae adran yn y ddogfen 'Cofrestr y Pedwerydd Cynulliad', o'r enw 'Cofnod o Gyflogaeth o Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn' yn rhoi'r wybodaeth am Aelodau'r Cynulliad sy'n cyflogi aelodau o'u teulu: http://cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-register.htm

Caiff yr holl staff eu cyflogi ar un o dri band cyflog, sef Band 1, Band 2 neu Fand 3, a rhaid iddynt gael eu cyflogi yn unol â'r Polisi Taliadau a gyhoeddwyd gan dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. Cyfeiriwch at Bennod 7 y Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad A**
**Adran 22:**

Mae adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu bod:

(1) Gwybodaeth yn wybodaeth wedi'i heithrio:

(a) os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu gan berson arall, rywbryd yn y dyfodol (p'un a yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio);

(b) os oedd y wybodaeth yn cael ei chadw eisoes gyda'r bwriad o'i chyhoeddi pan wnaed y cais am ei gweld, a

(c) os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad a nodir ym mharagraff (a).

Mae adran 22 yn eithriad amodol a, chan hynny, mae angen ystyried prawf o fudd cyhoeddus.

Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Bwrdd Taliadau yn cyhoeddi adroddiad blynyddol (yn ogystal ag agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd).

Arfer y Bwrdd yw cyhoeddi'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani fel rhan o'i adroddiad blynyddol, a disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Gorffennaf.

Ni allwn weld unrhyw amgylchiadau sy'n awgrymu y byddai datgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer o unrhyw fudd cyhoeddus yn yr achos penodol hwn. Gan hynny, rydym o'r farn nad yw'r budd cyhoeddus a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer yn drech na'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth gadw at y trefniadau uchod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**